CYFRES A7

# amserbeibl

## Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4



Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran                Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad


Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th




DARLLENWCH
Genesis 25: 19-34
27: 1-41



ADNOD ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 5: 8

## Astudiaeth 1   Jacob – Y Twyllwr



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Diarhebion 11: 18     Galatiaid 6: 7-8     Hebreaid 12: 16-17

Mae'r set hon o astudiaethau'n ein cyflwyno i deulu Isaac, mab Abraham.

**C  O'r ffeithiau a roddir yn y Darlleniad cyntaf o'r Beibl, llanwch y bylchau yn y darn isod:-**

Enw gwraig Isaac oedd ..................................................

Roedd yn fam i efeilliaid o'r enw .................................................. a ..................................................

Roedd yr un hynaf yn ..................................................

Hyd yn oed cyn eu geni, dywedodd yr Arglwydd wrth eu mam y byddai'r .................................................. yn gwasanaethu'r .................................................. .   3

Mae'r Darlleniadau o'r Beibl yn dangos bod datganiad Duw am ddyfodol y bechgyn wedi dod yn wir mewn ffyrdd rhyfedd iawn. Llwyddodd Jacob i gael y gorau ar Esau DDWY waith, trwy dwyllo a dweud celwydd, ac felly cafodd awdurdod dros ei frawd.

**Y TRO CYNTAF – BRAINT Y MAB HYNAF:**

Darllenwch 25: 29-34 eto. Roedd yr 'enedigaeth-fraint' yn eiddo i fab hynaf y teulu. Roedd yn rhoi'r hawl iddo fod yn ben y teulu a chael siâr ddwbwl o gyfoeth y tad. (Deuteronomium 21: 17). Roedd Jacob, y mab IEUENGAF, yn benderfynol o ddwyn yr enedigaeth-fraint oddi wrth Esau!

**C  O dan ba amgylchiadau ofynnodd Jacob i Esau am yr enedigaeth fraint?**   2

**C  Beth gafodd Esau yn gyfnewid am yr enedigaeth-fraint?**   1

Mae hyn yn dangos bod Jacob yn hunanol a'i fod yn barod i gymryd mantais annheg, hyd yn oed o'i frawd, er mwyn cael ei ffordd ei hunan. Ond y peth rhyfeddol yw bod gan Dduw gynllun ar ei gyfer er ei fod yn gelwyddog ac yn dwyllodrus. Byddai Duw'n rhoi ei gynlluniau ar waith ym mywyd Jacob. Felly y mae hi heddiw hefyd. Mae Duw yn ein caru ac yn dymuno i ni fod yn blant iddo er ein bod ni'n mynd ein ffordd ein hunain.

**C** **Cewch ddarllen am hyn yn yr Adnod Allweddol; ysgrifennwch hi yma.** 2

**YR AIL DRO – Y FENDITH: Genesis 27: 1-29**

Roedd Isaac wedi bwriadu bendithio Esau ond cafodd Jacob y fendith trwy dwyll!

**Darllenwch yr adnodau hyn yn ofalus ac ateb y cwestiynau isod:**

**C** **Beth wnaeth hi'n hawdd i Jacob dwyllo'i dad?** 1

**C** **Sut aeth Jacob ati i wneud ei hunan yn debyg i Esau?** 2

**C** **Beth oedd rhan Rebeca yn y twyll?** 2

Er ei fod yn amheus ar y dechrau, rhoddodd Isaac ei fendith i Jacob (adnodau 27-29). Fel y dywedodd Duw flynyddoedd yn gynt, byddai Jacob yn ddyn grymus.

**C** **Yn ôl adnod 29, sut y byddai ei awdurdod yn cael ei fynegi?** 2

**C** **Pan oedd Isaac newydd orffen bendithio Jacob, pwy gyrhaeddodd?** 1

Roedd yr hen ŵr dall wedi drysu'n llwyr ac roedd Esau'n siomedig ac yn ddig.

**C** **Dangoswch beth ddigwyddodd ar ddiwedd y stori trwy roi geiriau addas yn y bylchau isod.** 3

Gwaeddodd Esau yn ................................... , ac ymbil ar ei ................................... i'w ................................... ef hefyd. Esboniodd Isaac ei fod wedi gwneud Jacob yn ................................... dros Esau, ac na allai dynnu hyn yn ôl. Byddai'n rhaid i Esau ................................... wrth ei gleddyf am byth.

Yn drist iawn, daw'r stori i ben a'r ddau frawd yn llawn casineb at ei gilydd.

**C** **Beth wnaeth Esau fygwth ei wneud i Jacob??** 1

Mae stori Jacob yn dangos yn glir i ni bod twyllo a dweud celwydd yn arwain at anhapusrwydd a thrafferth i ni. Yn lle hynny, dylem adael i Dduw gyflawni ei gynlluniau ar gyfer ein bywyd ni, yn ei ffordd ei hunan ac yn ei amser ei hunan. Bu'n rhaid i Jacob ddysgu mai "garw yw ffordd y twyllwyr".

(Diarhebion 13: 15)

**cyfanswm**